# Gwybodaeth Ychwanegol at Atebion Gweinidogion

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0267(FPS) a gyhoeddwyd gan Edwina Hart, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, ar 23 Ebrill 2008

**At Nick Bourne:**

Yn y Cyfarfod Llawn ar 16 Ebrill, codwyd mater gennych ynghylch amseroedd ymateb ambiwlansys yn ardal Powys.

Y targed yw ateb 60% o alwadau o fewn 8 munud, ond ddiwedd mis Chwefror 2008, gwelwyd mai dim ond 43.8% o alwadau a atebwyd o fewn 8 munud ym Mhowys. Wrth reswm, mae hyn yn annerbyniol ac mae Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ymwybodol fy mod yn awyddus i'r lefel perfformiad hwn wella ar unwaith.

O ran y pwynt ichi godi ynglŷn â'r Cerbydau Dibyniaeth Fawr yn ardal Powys, aeth yr Ymddiriedolaeth ati i ymgymryd ag ymarfer mapio i benderfynu lle fyddai orau i ddefnyddio'r 26 Cerbyd Dibyniaeth Fawr er mwyn sicrhau bod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau. O ganlyniad i'r ymarfer, neilltuwyd 1 Cerbyd Dibyniaeth Fawr ar gyfer Powys.

Mae'r Ymddiriedolaeth a Bwrdd Iechyd Lleol Powys yn cydweithio er mwyn sefydlu mentrau partneriaeth a fydd nid yn unig o fudd i ofal cleifion ond yn gwella amseroedd ymateb hefyd.

Gobeithio y bydd yr wybodaeth hon yn ddefnyddiol i chi.

## Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0267(FPS) a gyhoeddwyd gan Jocelyn Davies, y Dirprwy Weinidog dros Dai, Ebrill 2008

**At Janet Ryder:**

Ysgrifennaf atoch i ymateb i'ch cwestiwn yn y cyfarfod llawn ar 16 Ebrill i'r Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus yn ymwneud â Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer a'i heffaith ar dai.

Fe lansiwyd Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer yn 2007 ar ôl chwe blynedd o weithio ar ffurf partneriaeth a chynnal astudiaeth drawsffiniol gan GVA Grimley. Ei diben yw darparu fframwaith anstatudol er mwyn cael mwy o gydweithredu a datblygu trawsffiniol rhwng Gogledd-ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer dros y 15 mlynedd nesaf (2006-21) a chyfrannu at Gynllun Gofodol Cymru a Chynllun Gofodol y Gogledd-orllewin.

Ailwampiwyd Cynghrair Mersi a Dyfrdwy yn 2007 fel y prif gorff cyflenwi ar gyfer Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer ac fe ddatblygodd yn sgil cydnabod y buddiannau economaidd a chymunedol cyffredin ar hyd a lled ardal Gorllewin Swydd Gaer, Cilgwri a Gogledd-ddwyrain Cymru. Caiff y Gynghrair ei harwain gan awdurdodau lleol Swydd Gaer, Caer, Sir Ddinbych, Ellesmere Port a Neston, Sir y Fflint, Cilgwri, Wrecsam, Llywodraeth Cynulliad Cymru a Merseytravel.

Mae'r bartneriaeth yn ystyried yr ardal drawsffiniol hon fel un isranbarth economaidd sydd â phoblogaeth o oddeutu 930,000 sydd wedi cael ei wahanu gan ffin genedlaethol. Mae'r Partneriaid yn cytuno i gydweithio ar fuddiannau strategol cyffredin i gynnal dyfodol

economaidd yr ardal, ac i hwyluso dull cydlynol o ymdrin â materion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

Ar hyn o bryd, mae Cynghrair Mersi a Dyfrdwy yn paratoi ei chynllun busnes a’i chynllun gweithredu a bydd yn cael ei lansio yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Gynghrair ar 17 Gorffennaf. Bydd y cynllun cyflenwi yn canolbwyntio ar themâu allweddol fel sgiliau, safleoedd cyflogaeth, trafnidiaeth a hygyrchedd, a chynaliadwyedd. Bydd y camau gweithredu hyn yn arwain at ddatblygiadau allweddol yn ardal Cynllun Gofodol Gogledd-ddwyrain Cymru.

Yn ogystal â chanlyniadau cynllun cyflenwi ffurfiol, mae partneriaeth Cynghrair Mersi a Dyfrdwy hefyd yn rhoi cyfle unigryw i bartneriaid ar y ddwy ochr o’r ffin i drafod ac i gynllunio gyda’i gilydd ar faterion allweddol wrth iddynt godi. Fel ichi grybwyll, mae tai yn un o’r meysydd lle mae wedi bod yn fuddiol i drafod effaith y marchnadoedd tai yng Nghaer ac yn Swydd Gaer ar gymdogaethau Gogledd-ddwyrain Cymru. Roedd datblygu Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer yn gyfle rhagorol i’r awdurdodau cynllunio ddod at ei gilydd i gytuno mewn dogfen anstatudol ar gynlluniau eang ar gyfer datblygu tai yn ystod bywyd y cynllun. Erbyn hyn, cyfrifoldeb yr awdurdodau ar ochr Cymru o’r ffin yw ystyried y cynlluniau hyn yn fwy ffurfiol wrth iddynt baratoi eu Cynlluniau Datblygu Lleol. At y diben hwn, ceir yn Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer wybodaeth gefndir dda gan eu bod wedi gweithio’n agos gyda’u cymdogion er mwyn cytuno ar ddull o weithio ar y cyd.

Yn dilyn datblygu’r ystod o gynlluniau tai o fewn Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru a Gorllewin Swydd Gaer ei hun, mae partneriaeth Cynghrair Mersi a Dyfrdwy wedi gallu cefnogi’r mentrau canlynol ar ochr Lloegr o’r ffin sydd â’u nod ar fynd i’r afael â materion yn ymwneud â thai:

• Roedd y Cyfarwyddyd Cynllunio Rhanbarthol blaenorol ar gyfer y Gogledd-orllewin (RPG13) yn cyfyngu ar dwf adeiladu tai yn ardal Sir Gaer er mwyn hybu adfywio yn Lerpwl a Manceinion. Yn disodli’r ddogfen hon bellach mae Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru sydd ar gael ar ffurf drafft ac mae Newidiadau Arfaethedig wedi cael eu cyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol at ddibenion ymgynghori.

• Roedd drafft Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru yn cynnig cynyddu ffigurau adeiladu tai ar draws rhanbarth y Gogledd-orllewin ac yn ardal Gorllewin Sir Caer, sef: 417 o dai newydd y flwyddyn yng Nghaer; 400 yn Ellesmere Port a Neston; a 500 yn Vale Royal Borough. Mae Newidiadau Arfaethedig yr Ysgrifennydd Gwladol i Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Orllewin Cymru yn awgrymu y dylid cadw at y ffigurau hyn, ond na ddylent gael eu hystyried bellach fel yr uchafswm, ac y gallai awdurdodau lleol adeiladu tai uwchlaw’r lefelau hyn. Mae modd ymgynghori ar y Newidiadau Arfaethedig hyn tan 23 Mai 2008.

• Yn ogystal â hyn, mae Cyngor Dinas Caer, y Vale Royal Borough a Chynghorau Bwrdeistref Ellesmere Port a Neston wedi ymuno â’i gilydd i gyflwyno cynnig ar gyfer statws Pwynt Twf o ganlyniad i’r Papur Gwyrdd ar Dai a gyhoeddwyd y llynedd. Mae’r ddogfen hon yn cynnig bod yr awdurdodau’n cydweithio i gynyddu nifer y tai a gaiff eu hadeiladu uwchlaw’r targedau yn Strategaeth Ofodol Is-ranbarthol Gogledd Ddwyrain Cymru, sef 23% (cyfanswm o ryw 1600 o dai newydd bob blwyddyn ar draws yr isranbarth). Mae’r llywodraeth wrthi ar hyn o bryd yn ystyried y Cais am Bwynt Twf ac mae’r awdurdodau’n aros i glywed os ydynt wedi bod yn llwyddiannus.

Rwy’n anfon copi o’r llythyr hwn at y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus ac at y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn eu rôl

fel y Gweinidog Arweiniol ar gyfer Cynlluniau Gofodol Cymru ac fel y Gweinidog Arweiniol ar gyfer cynllunio gofodol yng Ngogledd-ddwyrain Cymru.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0352(CEL) a gyhoeddwyd gan Jane Hutt, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau**

**At Andrew R.T. Davies:**

Yn dilyn eich cwestiwn llafar ar 16 Ebrill (OAQ(3)0352(CEL)) ynghylch sut y mae'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr yn cyfathrebu â myfyrwyr ynghylch ad-dalu eu dyled, mae fy swyddogion wedi cysylltu â'r cwmni ynghylch y ddau fater a godwyd gennych – cyfleuster annigonol ar gyfer cysylltu â'r Cwmni dros y Rhyngrwyd a'r ffaith nad yw ond yn cysylltu â'i gwsmeriaid unwaith y flwyddyn.

O safbwynt cysylltu â'r Cwmni dros y Rhyngrwyd, mae'r Cwmni wedi cyfaddef bod angen iddo fynd i'r afael â'r mater hwn. Mewn ymateb i'r angen hwn maent wedi mynd ati i greu cyfrifiannell ar-lein a fydd yn cyfrifo'r swm sy'n weddill ynghyd â phorthol ar gyfer ad-dalu. Bydd y rhain yn galluogi'r cwsmeriaid i gyfrifo'r swm sy'n weddill i'w dalu a faint o log y byddant yn ei dalu arno, ac os ydynt yn dymuno hynny byddant yn gallu defnyddio cyfleuster ar-lein ar gyfer gwneud taliadau diogel. Rhagwelir y bydd y cyfleuster hwn ar gael o ddiwedd mis Mehefin 2008. Mae'r Porthol presennol yn galluogi cwsmeriaid i ddiwygio rhai manylion demograffig a rhai manylion personol.

Mae'r Cwmni gan amlaf yn cysylltu â'i gwsmeriaid bob blwyddyn drwy gyfriflenni. Caiff cyfriflenni eu hanfon ar ôl y derbynnir Ffeil P14 (sef rhestr o'r ad-daliadau a wnaed gan y cwsmer drwy'r cyflogwr) oddi wrth Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi. Disgwylir i gyflogwyr gyflwyno eu ffeiliau P14 i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi erbyn 19 Mai bob blwyddyn, a fydd yna'n eu trosglwyddo i'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr. Mae'r Cwmni yn defnyddio'r Ffolderi hyn ar gyfer diweddaru manylion cyfrif y cwsmer ac anfon cyfriflen gyfredol. Dyma'r rheswm pam nad yw'r Cwmni ond yn cysylltu â'i gwsmeriaid unwaith y flwyddyn, a hyd nes y bydd cyflogwyr a Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn trosglwyddo i Ffolderi P14 misol (nad yw'n debygol iawn yn y tymor byr) ni fydd amlder y cyswllt yn newid.

Hyderaf fy mod wedi egluro'r broses yn ddigonol.

**Gwybodaeth ychwanegol at OAQ(3)0295(FPS) a gyhoeddwyd gan Andrew Davies, y Gweinidog dros Gyllid a Chyflenwi Gwasanaethau Cyhoeddus**

**At Jeff Cuthbert:**

Fel yr addewais wrth ymateb i'ch cwestiwn ar 16 Ebrill 2008, rwyf yn ysgrifennu atoch i roi manylion o'n mentrau i ofalu bod cyfleoedd am gontractau yn y sector cyhoeddus ar gael i fwy o fusnesau bach yng Nghymru.

Yn fy ymateb gwreiddiol dywedais wrthych, drwy'r Tasglu Caffael Busnes, bod y nod o sicrhau chwarae teg i ddarparwyr yng Nghymru yn dod yn ei flaen yn dda, gan annog mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd caffael yn y sector cyhoeddus. Rhan o waith y Tasglu oedd rhoi cyngor a chymorth ymarferol i'r cymunedau caffael a chyflenwi ledled Cymru. Er enghraifft:

- rydym yn arwain ar ymrwymiad 'Cymru'n Un' i ddatblygu cod ymarfer caffael ar gyfer Cymru gyfan i gynorthwyo cynnydd graddol ym maint y caffael cyhoeddus sy'n deillio o Gymru.

- rydym yn monitro faint sy'n ymwneud wrth ddefnyddio'r wefan gaffael genedlaethol a mabwysiadu'r siartr "Drysau Agored";

hyd yn hyn mae cyfleoedd caffael cyhoeddus gwerth mwy na £5 biliwn wedi cael eu hysbysebu drwy borthol PrynwchiGymru. Mae mwy na 28,000 o gyflenwyr wedi'u cofrestru ar hyn o bryd ar borthol gwerthwchigymru - ac mae mwy na 60% o'r rhain yng Nghymru. Mae'r cyflenwyr hyn yn cael gwybod ar unwaith am gyfleoedd sy'n cyfateb i'w proffil cofrestredig. Mae rhyw 40% o'r cyfleoedd contract a hysbysebwyd drwy borthol gwerthwchigymru yn is na'r trothwyon caffael Ewropeaidd;

- rydym wedi llunio arweiniad o ran yr arferion gorau drwy gyfrwng y canllaw cynllunio caffael. Adnodd sydd ar gael yn rhad ac am ddim yw hwn, ac mae modd ei weld drwy'r wefan www.prynwchigymru.co.uk sy'n hyrwyddo dull strwythuredig fesul cam ac sy'n annog dull cyson sy'n defnyddio'r arferion gorau o ran caffael ar hyd a lled sector cyhoeddus Cymru;

- rydym yn cydgysylltu'r gwaith rhwng asiantaethau cynorthwyo busnesau i sicrhau bod cymorth addas yn cael ei roi i BBaCh Cymru i'w galluogi i gystadlu'n well am fusnes yn y sector cyhoeddus.

Yn ddiweddar cytunodd y Tasglu i archwilio maes allweddol a oedd yn achosi pryder ac a oedd yn gysylltiedig â chymhlethdod a thoreth y gwahanol drefniadau a ddefnyddir gan y gwasanaeth cyhoeddus wrth ymwneud â chyflenwyr a darpar gyflenwyr posibl. Gall fod yn anodd dod i ben â'r rhain a gallant roi baich ariannol ychwanegol ar gyflenwyr. Bydd y Tasglu yn cael adroddiad ar le mae'r ymchwil hon arni yn ei gyfarfod nesaf yn yr hydref.

O ran caffael bwyd, nododd adroddiad arolwg caffael bwyd y sector cyhoeddus gan Lywodraeth Cynulliad Cymru yn 2005:

- fod cyfanswm y bwyd a brynwyd gan y sector cyhoeddus yn 2005 yn werth £66 miliwn - sef codiad o'r £55 miliwn a dalwyd yn 2003;

- bod cyfanswm canran y bwyd o Gymru a brynwyd wedi codi o 18% yn 2003 i 24% yn 2005;

- bod canran y cynnyrch bwyd allweddol a brynwyd yn ystod yr union gyfnod hwn gan gyflenwyr o Gymru (bara, llaeth, cig, etc.) wedi cynyddu o 38% i 45% a'r prif godiadau yn digwydd yn achos llaeth - sydd wedi codi o 89% i 91% a chig - sydd wedi codi o 57% i 76%;

- bod ymdrech sylweddol y GIG a'r awdurdodau lleol ar y cyd â Llywodraeth Cynulliad Cymru i annog mwy o gyflenwyr lleol i gynnig am dendrau er mwyn cyflenwi cynnyrch bwyd yn dechrau dwyn ffrwyth.

Mae ymrwymiad 'Cymru'n Un' i lansio menter bwysig ar gaffael bwyd lleol yn cael ei arwain gan yr Adran dros Faterion Gwledig gyda chymorth grŵp caffael bwyd, sy'n sianel i rannu'r arferion gorau sy'n digwydd mewn llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae hyn yn ei dro yn annog eraill i gynnal gwaith tebyg.

Ymhlith cyfraniadau penodol y grŵp hwn mae cyhoeddi'r canllawiau 'Cnoi Cil' sy'n hyrwyddo'r gwaith o gaffael bwyd ffres, maethlon, o safon uchel mewn modd diogel. Yn ogystal, mae'r grŵp yn cyfrannu at ddatblygu gwahanol bolisïau a mentrau allweddol gan gynnwys Cynllun Gweithredu Blas am Oes, Strategaeth Ansawdd Bwyd, a'r Strategaeth Bwyd a Diod sydd wrthi'n cael ei ddatblygu a'r Cynlluniau Gweithredu Strategol ar gyfer Cyrchu Lleol yng Nghymru.

Gobeithio bod yr wybodaeth hon o gymorth, a byddwn yn barod i roi rhagor o fanylion petai angen.